# Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad

# Adroddiad Ôl-Gynhadledd

## 38ain Gynhadledd Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Gwledydd Môr y Canoldir
## Gibraltar 11-15 Mai 2008

**Dirprwyaeth y Gangen:**

Rosemary Butler AC, Dirprwy Lywydd ac Is Lywydd y Gangen
Janet Ryder AC, Cadeirydd y Gangen
Michael German AC
Jeff Cuthbert AC

**Cynrychiolydd y Pwyllgor Gweithredol Rhyngwladol :**

Alun Cairns AC

**Ysgrifennydd a aeth gyda hwy:**

Peter Kellam

## Cefndir

1. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru Gangen weithgar o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad [(1)]. Mae Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn cyfarfod mewn cynhadledd lawn bob haf ac unwaith y flwyddyn yn cyfarfod ar lefel ranbarthol hefyd. Mae'r Cynulliad wedi'i grwpio gyda Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Gwledydd Môr y Canoldir [(2)].

2. Gwahoddwyd Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad i anfon dirprwyaeth o bedwar Aelod i fynychu 38ain cynhadledd Rhanbarth Ynysoedd Prydain a gwledydd Môr y Canoldir gan Senedd Gibraltar yng Ngwesty'r O'Callaghan Elliot Hotel Gibraltar rhwng 11 a 15 o fis Mai, 2008. Yn unol ag Arfer y Gangen gwahoddwyd mynegiannau o ddiddordeb mewn mynychu'r gynhadledd gan yr holl Aelodau a dewiswyd y ddirprwyaeth gan Bwyllgor Gweithredol y Gangen. Yn ychwanegol at y ddirprwyaeth mae'r Cynulliad yn darparu, ar sail rota gyda'r Alban, Gogledd Iwerddon, Cyprus a Malta un o dri cynrychiolydd rhanbarthol i Bwyllgor Gweithredol y CPA.



Gibraltar o Sbaen yn edrych i'r De tua Morocco

### Y Gynhadledd

3. Mae copi o raglen y gynhadledd yn amgaeedig er gwybodaeth i chi (Atodiad 1). Yr oedd yr elfennau yn cydymffurfio â fformat safonol sesiynau llawn a gweithdai i grwpiau bach gan ddefnyddio arbenigwyr lleol oedd yn wahoddedigion a defnyddiwyd rhai a fynychodd fel cyflwynwyr.

4. Yr oedd y gynhadledd fodd bynnag ychydig yn wahanol i'r arfer mewn cynadleddau blaenorol gan ei bod yn mabwysiadu dull gweithredu yn seiliedig ar thema oedd yn archwilio pa strategaethau ac opsiynau a ellid eu dilyn gan diriogaethau bach mewn perthynas ag:

- Arbed a chynhyrchu ynni;
- Twristiaeth a'r Amgylchedd

5. Yr oedd y gynhadledd hefyd yn wahanol gan ei bod wedi cynhyrchu cyhoeddiad sylweddol i gyd-fynd â'r gynhadledd. (Atodiad 2).

6. Cynhaliwyd sesiynau llawn ar:

- Newid Hinsawdd ac Ynni,
- Eco-Dwristiaeth
- Gwarchod byd natur

7. Cynhaliwyd gweithdai ar:

- **Gynhyrchu Ynni:** dan gadeiryddiaeth Rosemary Butler AC, ac yr oedd Alun Cairns AC hefyd yn bresennol
- **Ynni Adnewyddadwy:** mynychwyd gan Jeff Cuthbert AC a Michael German AC
- **Defnyddio Ynni'n Effeithiol:** cyflwynydd, Janet Ryder AC
- **Gwneud y Mwyaf o Dwristiaeth:** mynychwyd gan Rosemary Butler AC
- **Effaith Twristiaeth ar yr Amgylchedd:** mynychwyd gan Alun Cairns AC
- **Seilwaith y Diwydiant Twristiaeth :** mynychwyd gan Janet Ryder AC a Jeff Cuthbert AC

8. Bydd crynodeb ar y gynhadledd yn cael ei roi ar wefan Cangen y Deyrnas Unedig o Gymdeithas y Gymanwlad: <http://www.cpaukbranch.org/>. Mae copïau o'r papurau a gyflwynwyd i'r gynhadledd gan siaradwyr arbenigol lleol ar gael yn: <http://www.gibraltar.gov.gi/> (dewiswch 'Government Departments and Public Services' yna 'Environment').

9. Mynychwyd y gynhadledd gan oddeutu 45 o seneddwyr o 12 o'r 13 Cangen BIMR . Cyflwynodd Cangen Malta eu hymddiheuriadau gan nodi anawsterau i ffurfio'u dirprwyaeth yn union wedi'r etholiad cyffredinol yn y wlad fel rheswm dros eu habsenoldeb. Hefyd yn bresennol yr oedd Ysgrifennydd Cyffredinol y CPA Dr William F Shija ac arsylwyr o Ganghennau'r Gymdeithas yn Andhra Pradesh (India), Victoria (Awstralia), Manitoba a Saskatchewan (Canada).

10. Gwelwyd bod thema'r gynhadledd yn gyfle i ddwyn sylw at nifer o feysydd y mae Aelodau'r Cynulliad yn ymwneud ynddynt. Yr oedd thema Arbed Ynni'n perthyn yn uniongyrchol i waith Cynaliadwyedd ac yr oedd cyflwyniad eglur Janet Ryder yn galluogi'r ddirprwyaeth i droi eu sylw at ymchwiliad y Pwyllgor Cynaliadwyedd i Ostwng Carbon yng Nghymru, Adeilad y Senedd a mentrau corfforaethol megis dadleuon pobl ifanc yn Siambr Hywel a Thîm Gwyrdd y Cynulliad. Yr oedd Aelodau Canghennau eraill â diddordeb arbennig mewn ymgorffori egwyddor cynaliadwyedd o fewn Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a 2006.

11. Yr oedd yr ymweliad â Senedd Gibraltar yn rhaglen y gynhadledd yn rhoi cyfle i gynnal trafodaethau anffurfiol ar sut mae seneddau'n hyrwyddo ac yn ehangu ymgysylltu ac ar gynrychiolaeth o blith merched. Pwysleisiodd

Dirprwy Lywydd y Cynulliad bwysigrwydd gweithio gyda phlant a phobl ifanc gan y Cynulliad a chyfeiriodd at batrwm enghreifftiol Cymru gyda golwg ar ferched yn cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth.

## Argymhellion

12. Rhai argymhellion sy'n deillio o raglen y gynhadledd:

- Mae'r cyhoeddiad fel cynnyrch y gynhadledd yn cyfrif fel cam gweithdrefnol ymlaen i gynadleddau Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad. **Mae'r ddirprwyaeth yn cymeradwyo'r cyhoeddiad ar gyfer Aelodau'r Gangen a Llywodraeth Cynulliad Cymru a bydd yn gofyn am gefnogaeth gan y grwpiau gwleidyddol i roi amser i'r cyhoeddiad gael ei drafod o fewn rhaglen fusnes y cyfarfod llawn.**

- Yr oedd anerchiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol i'r gynhadledd yn dangos ymwybyddiaeth fod y Gymdeithas yn mynd i'r afael â'r sialens i'w chysylltiadau a'i chyfathrebu allanol sicrhau ei bod yn berthnasol ac yn ddealladwy gan y gymuned seneddol ehangach a'r sefydliadau rhyngwladol niferus y mae'n ceisio dylanwadu arnynt. **Mae'r ddirprwyaeth yn edrych ymlaen at weld gwefan well a strategaeth gyfathrebu oddi wrth Ysgrifenyddiaeth Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad.**

- Yr oedd y cyfle gorau ar gyfer rhannu gwybodaeth yn bodoli rhwng canghennau'r ynysoedd lleiaf o fewn y grwpiau. Yr oeddent oll yn wynebu heriau tebyg oherwydd eu daearyddiaeth ffisegol a dynol. Yr oedd yn amlwg o'r gynhadledd fod llawer o gymdogion o ran gwledydd nad oeddent yn ymwybodol o ddatblygiadau mewn mannau eraill o fewn eu grwpiau rhanbarthol y gallent ddysgu oddi wrthynt. Esiampl o hyn oedd defnyddio pŵer y llanw ar gyfer cynhyrchu ynni a darganfod diddordeb a rannwyd rhwng Gibraltar ac Ynysoedd y Sianel. Cyfeiriodd Michael German AC y gynhadledd at dechnoleg pŵer y llanw nad yw eto wedi'i brofi a sut y gall gwledydd bychain fod yn ddeniadol fel mannau profi ar gyfer cynlluniau arbrofol. Trafododd y gynhadledd hefyd yr angen am drosglwyddo technoleg rhwng gwledydd sydd wedi datblygu a rhai sydd angen datblygu ymhellach. **Cefnogodd y ddirprwyaeth yr argymhelliad fod y gwersi a ddysgwyd o'r gynhadledd hon ar gael ar gyfer cynhadledd gwledydd bychain Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fydd yn digwydd o fewn Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad ym mis Awst 2008.**

## Lletygarwch

13. Mae'r gynhadledd BIMR yn gweithredu ar gylchdro, gyda'r Gangen sy'n croesawu yn gyfrifol am roi llety, trafnidiaeth leol a chroeso. Dymuna'r ddirprwyaeth gydnabod y lletygarwch hael a gynigwyd iddynt gan:

- Gangen Gibraltar o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad
- Llefarydd Senedd Gibraltar yr Anrh Haresh K Budhrani AS QC
- Ei Ardderchowgrwydd y Llywodraethwr yr Is-gadfridog Syr Robert Fulton KBE, Cynrychiolydd Ei Mawrhydi yn Gibraltar

- Prif Weinidog Llywodraeth Gibraltar yr Anrhydeddus PR Caruana

**Casgliad**

13. Mae'r gynhadledd flynyddol hon yn rhoi cyfle i gynnull ynghyd seneddwyr o Ynysoedd Prydain a Rhanbarth Môr y Canoldir i rannu gwybodaeth a thrafod materion sydd o ddiddordeb i bawb ohonynt. Mae llawer y gall y Cynulliad ei ddysgu oddi wrth ei gymaryddion rhanbarthol yng Nghymdeithas Seneddol y Gymanwlad. Mae'r dewis thema a mabwysiadu'r cyhoeddiad yn ddatblygiadau mae'r ddirprwyaeth yn eu croesawu. Mae'r ddirprwyaeth yn sylweddoli'r angen i'r CPA weithio ar bob lefel o fewn a rhwng seneddau er mwyn profi'n barhaus ei bod yn berthnasol i weithio tuag at werthoedd cyffredin democratiaeth gyfranogol a chymuned seneddol wybodus.



Cynrychiolwyr o blith y merched wedi ymgasglu'n anffurfiol fel grŵp yn ystod y gynhadledd.

Dangoswyd y King’s Bastion fel esiampl o adfywio trefol yn Gibraltar i rai a ddaeth i’r gynhadledd:



Cynt – generadur segur yng nghanol y ddinas



Wedyn – canolfan hamdden â mannau mewnol ac allanol sy’n cynnig nifer o gyfleusterau





Soniwyd am Ogofeydd y glannau ar arfordir gorllewinol Gibraltar gyda thystiolaeth o gyfannedd Neanderthal (uchod) a lleoliad yr ynys ar y llwybr mudo adar ar draws Môr y Canoldir (isod) fel esiamplau lleol o eco-dwristiaeth.



**Atodiadau:**

Atodiad 1 – Rhaglen y Gynhadledd
Atodiad 2 – Cyhoeddiad y Gynhadledd

**Troednodiadau:**

(1) Mae Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn sefydliad cydseneddol rhyngwladol. Gellir gweld rhagor o wybodaeth am y Gymdeithas yn http://www.cpahq.org ac am gangen Cymru yn http://www.assemblywales.org/abthome/abt-nafw/abt-assembly-inernational/abt-international-cpa.htm

(2) Mae'r grŵp o Ynysoedd Prydeinig a Gwledydd Môr y Canoldir yn cynnwys Alderney, Cyprus, Ynysoedd y Falkland, Gibraltar, Guernsey, Ynys Manaw, Jersey, Gogledd Iwerddon, yr Alban, Saint Helena, y Deyrnas Unedig a Chymru.